Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth: Adroddiad Blynyddol ar Addasrwydd i Ymarfer 2011-2012

# Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad Blynyddol ar Addasrwydd i Ymarfer 2011-2012

Cyflwynwyd gerbron y Senedd yn unol ag Erthygl 50 (2) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

Medi 2012 Llundain: Y Llyfrfa £16.00

**(h) Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012)**

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, lle maent yn ymddangos, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol ac asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a nodi teitl y ddogfen. Lle y nodwyd deunydd trydydd parti, rhaid cael caniatâd priod ddeiliad yr hawlfraint.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i'r cyfeiriad canlynol sef Nursing and Midwifery Council, 23 Portland Place, London W1B 1PZ.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn **www.official-documents.gov.uk**
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar ein gwefan yn **www.nmc-uk.org**

ISBN: 9780108511790

Argraffwyd yn y DU gan y Llyfrfa Cyfyngedig
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID: P002494920 09/12 23136

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75 y cant o ffibrau wedi'u hailgylchu

# Cynnwys


Rhagair ..... 2

Cyflwyniad ..... 3

- Pwy ydym ni ..... 3
- Yr hyn a wnawn ..... 3
- Goruchwylio ein gwaith ..... 3

Diogelu'r cyhoedd ..... 4

- Cofrestr y CNB ..... 4
- Addasrwydd i ymarfer ..... 4
- Pryd na allwn ymchwilio ..... 5
- Y camau a gymerir gennym os bydd nyrs neu fydwraig yn anaddas i ymarfer ..... 5

Cipolwg ar ein gwaith yn 2011-2012 ..... 6

Sut rydym yn gwybod a oes problem? ..... 7

Sut rydym yn ymdrin â phryderon a godir ..... 9

Proses addasrwydd i ymarfer ..... 11

Asesiad cychwynnol ..... 12

Yr hyn rydym yn ei wybod am ethnigrwydd ac amrywiaeth yr unigolion y'u hatgyfeirir atom ..... 14

- Natur yr honiadau a gafodd eu hatgyfeirio atom ..... 20

Gweithredu ar fyrder i ddiogelu'r cyhoedd ..... 21

- Ein perfformiad yn 2011-2012 ..... 21
- Canlyniadau gorchmynion interim ..... 22

Ymchwiliadau ..... 28

- Ein perfformiad yn 2011-2012 ..... 28
- Canlyniadau'r Pwyllgor Ymchwilio ..... 29

Dyfarniadau ..... 35

- Ein perfformiad yn 2011-2012 ..... 35
- Canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd a'r Pwyllgor Iechyd ..... 36

Apeliadau yn erbyn ein penderfyniadau ..... 43

Datblygiadau allweddol yn 2011-2012 ..... 45

Casgliad ..... 47

Atodiad 1 ..... 48

## Rhagair

Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn bodoli i ddiogelu iechyd a lles y cyhoedd. Gwnawn hyn drwy sicrhau mai dim ond y rheini sy'n bodloni ein gofynion a gaiff ymarfer fel nyrs neu fydwraig yn y DU. Gweithredwn os codir pryderon ynghylch addasrwydd nyrs neu fydwraig i ymarfer.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r ffordd rydym wedi ymdrin â phryderon a godwyd ynghylch addasrwydd i ymarfer nyrsys a bydwragedd yn ystod 2011-2012. Dylai gael ei ddarllen ochr yn ochr ag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2011-2012 sy'n cwmpasu'r holl waith rydym yn ei wneud i ddiogelu iechyd a lles y cyhoedd.

Yn ystod 2011-2012, cafodd dros 671,000 o nyrsys a bydwragedd eu cofrestru gennym i ymarfer yn y DU. Mae'n bwysig cydnabod bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y nifer fechan iawn o'r nyrsys a'r bydwragedd hynny - tua 0.6 y cant - a ddaeth i'n sylw am fod pryderon yn eu cylch. Cafodd nifer hyd yn oed yn llai - o dan 0.1 y cant - ryw fath o sancsiwn yn dilyn ymchwiliad gennym. Mae hyn yn golygu bod y mwyafrif helaeth o nyrsys a bydwragedd yn ymarfer yn ddiogel ac yn cyrraedd y safonau uchel, y mae'n gywir i'r cyhoedd eu disgwyl, yn gyson.

Bu'r flwyddyn a aeth heibio yn un heriol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac mae ein gwaith addasrwydd i ymarfer wedi bod yn destun craffu manwl. Rydym wedi cydnabod yr angen i fynd i'r afael â gwendidau o ran pa mor gyflym yr ymdriniwn ag achosion, y gwasanaeth cwsmeriaid a ddarperir gennym ac ansawdd y penderfyniadau mewn achosion addasrwydd i ymarfer. Mae gennym gynllun gweithredu clir ar waith i ymdrin â'r materion hyn a gefnogir gan gryn fuddsoddiad. Caiff hynt y cynllun ei fonitro'n ofalus gan y Cyngor er mwyn sicrhau gwelliant parhaus o ran y ffordd y cyflawnir gwaith addasrwydd i ymarfer gennym. Mae hyn, ynghyd â'r rhaglen fawr sydd bellach ar waith i drawsnewid y CNB yn rheoleiddiwr mwy effeithlon, effeithiol a darbodus, yn golygu bod gennym ffocws clir a chadarn ar gyflawni ein dyletswydd sylfaenol, sef diogelu'r cyhoedd.

**Yr Athro Judith Ellis MBE**
**Dirprwy Gadeirydd**

**CNB**
**4 Medi 2012**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro**
**CNB**
**4 Medi 2012**

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn egluro'r gwaith y mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ei wneud i ddiogelu'r cyhoedd rhag nyrsys a bydwragedd cofrestredig y mae eu haddasrwydd i ymarfer yn ddiffygiol. Noda:

- Pwy ydym a beth rydym yn ei wneud.
- Sut rydym yn ymdrin â phryderon a godir ynghylch nyrsys neu fydwragedd.
- Nifer yr achosion yr edrychwyd arnynt, pa fath o achosion oeddent a beth a ddigwyddodd yn yr achosion hynny.
- Y camau rydym yn eu cymryd i wella'r ffordd rydym yn gwneud y gwaith hwn.

### Pwy ydym ni

Ni yw'r rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth ar gyfer y DU.[1] Rydym yn annibynnol ar lywodraeth a chawn ein hariannu drwy'r ffioedd cofrestru a gawn gan y nyrsys a'r bydwragedd sydd ar ein cofrestr.

### Yr hyn a wnawn

Ein rôl yw diogelu iechyd a lles y cyhoedd drwy sicrhau bod pob nyrs a bydwraig sy'n ymarfer yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth, yr iechyd da a'r cymeriad da i wneud ei gwaith yn ddiogel ac yn effeithiol. I wneud hyn, mae angen:

- Ei gwneud yn ofynnol i bob nyrs a bydwraig sy'n ymarfer yn y DU gofrestru gyda ni.
- Pennu safonau addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad fel bod nyrsys a bydwragedd yn gallu darparu gofal iechyd o ansawdd uchel yn gyson drwy gydol eu gyrfaoedd.
- Sicrhau bod nyrsys a bydwragedd yn diweddaru eu sgiliau a'u gwybodaeth ac yn cynnal ein safonau proffesiynol.
- Gweithredu prosesau clir a thryloyw i ymchwilio i nyrsys a bydwragedd nad ydynt yn cyrraedd ein safonau - ein gwaith addasrwydd i ymarfer.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ein gwaith addasrwydd i ymarfer. Efallai y bydd hefyd yn ddefnyddiol darllen Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2011-2012 sy'n cwmpasu'r holl waith rydym yn ei wneud i ddiogelu iechyd a lles y cyhoedd.[2]

### Goruchwylio ein gwaith

Rydym yn atebol i'r Senedd, drwy'r Cyfrin Gyngor, am yr hyn a wnawn. Yn 2011, cyflawnodd y Pwyllgor Iechyd y rôl hon ar ran y Senedd drwy ein galw i wrandawiad atebolrwydd.[3] Gwnaethom groesawu'r cyfle hwn i drafod ein gwaith ac rydym yn falch bod y Pwyllgor Iechyd yn bwriadu cynnal y gwrandawiadau hyn bob blwyddyn.

---

1 Gorchymyn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2011 OS 2002/253 (fel y'i diwygiwyd)
2 www.nmc-uk.org/About-us/Annual-reports-and-statutory-accounts
3 www.publications.parliament.uk/pa/cm201012/cmselect/cmhealth/1699/169902.htm

Mae ein gwaith hefyd yn cael ei oruchwylio gan y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd (CHRE). Bob blwyddyn, mae'r CHRE yn edrych ar sawl agwedd ar ein gwaith:

- Mae'n adolygu ein perfformiad cyffredinol ac yn adrodd yn ôl ar hyn i'r Senedd.[4]

- Gall archwilio sampl o'r achosion addasrwydd i ymarfer rydym wedi eu cau ar gam cynnar.[5]

- Mae'n adolygu'r holl benderfyniadau dyfarnu terfynol mewn achosion addasrwydd i ymarfer. Os bydd o'r farn nad yw penderfyniad yn ddigon llym, gall ofyn i'r Uchel Lys ystyried yr achos. Gall hefyd roi adborth ar ein prosesau dyfarnu a'n penderfyniadau ar ffurf pwyntiau dysgu.

# Diogelu'r cyhoedd

## Cofrestr y CNB

Wrth wraidd popeth a wnawn i ddiogelu'r cyhoedd mae cadw'r gofrestr o nyrsys a bydwragedd a gaiff ymarfer yn y DU yn gyfreithlon. Dim ond y sawl sy'n cyrraedd ein safonau a all gael eu cynnwys ar y gofrestr, neu aros arni. Mae statws cofrestru yn rhoi sicrwydd i gleifion, cyflogwyr a'r cyhoedd bod unigolyn yn gwbl gymwysedig, ei fod wedi'i hyfforddi, y gall ymarfer mewn ffordd ddiogel ac effeithiol ac y gellir ymddiried ynddo a chael hyder ynddo.

Dim ond ni all atal nyrs neu fydwraig rhag ymarfer yn y DU drwy ei thynnu oddi ar y gofrestr neu gymryd camau i'w hatal dros dro neu gyfyngu ar y ffordd y mae'n ymarfer.

Ar 31 Mawrth 2012, roedd 671,668 o nyrsys a bydwragedd ar ein cofrestr.
Gall unrhyw un weld a yw nyrs neu fydwraig wedi'i chofrestru drwy fynd i **www.nmc-uk.org/search-the-register.**

## Addasrwydd i ymarfer

Rhaid i bob nyrs a bydwraig gymwysedig ddilyn y cod proffesiynol: *The code: Standards of conduct, performance and ethics for nurses and midwives*[6] a'n safonau, a bod yn addas i ymarfer, fel y gall cleifion a'r cyhoedd ymddiried ynddynt i ofalu am eu hiechyd a'u lles.

Mae bod yn addas i ymarfer yn golygu bod gan nyrs neu fydwraig y sgiliau, y wybodaeth, yr iechyd da a'r cymeriad da i wneud ei gwaith yn ddiogel ac yn effeithiol heb gyfyngiad.
Pan fydd rhywun o'r farn nad yw nyrs neu fydwraig yn addas i ymarfer gall dynnu ein sylw at y pryderon hyn. Ymchwiliwn i honiadau amrywiol yn cynnwys:

- Camymddwyn.

- Diffyg cymhwysedd.

---

4 www.chre.org.uk/_img/pics/library/120620_CHRE_Performance_review_report_2011-12,_Vol_II_(Colour_for_web_-_PDF)_1.pdf
5 www.chre.org.uk/_img/pics/library/pdf_1321356841.pdf
6 www.nmc-uk.org/code

- Ymddygiad troseddol.
- Salwch difrifol.

Os na fydd nyrs neu fydwraig yn cyrraedd y safonau rydym yn eu pennu, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu na fydd yn addas i ymarfer - rhaid i ni ystyried yr holl amgylchiadau dan sylw.

Rydym hefyd yn ymchwilio i achosion lle mae'n ymddangos bod rhywun ar ein cofrestr drwy dwyll.

## Pryd na allwn ymchwilio

Dim ond y mathau canlynol o gwynion y gallwn ymchwilio iddynt:

- Cwyn yn erbyn nyrs neu fydwraig sydd ar ein cofrestr. Ni allwn ystyried cwynion am gynorthwywyr gofal iechyd na gweithwyr gofal iechyd eraill.
- A yw nyrs neu fydwraig yn addas i fod ar ein cofrestr. Fel rheol, dylai unrhyw gwynion neu bryderon eraill am nyrs neu fydwraig gael eu datrys gan y cyflogwr neu ryw awdurdod arall.

## Y camau a gymerir gennym os bydd nyrs neu fydwraig yn anaddas i ymarfer

Os bydd addasrwydd i ymarfer nyrs neu fydwraig yn ddiffygiol, byddwn naill ai'n penderfynu nad oes angen cymryd unrhyw gamau rheoleiddiol o ystyried holl amgylchiadau'r achos neu byddwn yn gwneud un o'r gorchmynion canlynol:

| | |
|---|---|
| **Gorchymyn rhybudd** | Gellir gwneud y gorchymyn hwn am gyfnodau o flwyddyn i bum mlynedd. Fe'i nodir ar y gofrestr gyhoeddus ond nid yw'n cyfyngu ar ymarfer y nyrs neu'r fydwraig. |
| **Gorchymyn amodau ymarfer** | Mae'r gorchymyn hwn yn cyfyngu ar ymarfer nyrs neu fydwraig am hyd at dair blynedd. Rhaid iddi gydymffurfio â'r cyfyngiadau er mwyn ymarfer, er enghraifft gellir ei hatal rhag cyflawni rhai agweddau ar y gwaith heb oruchwyliaeth. Rhaid i'r gorchymyn gael ei adolygu cyn iddo ddod i ben a gellir cyflwyno un arall yn ei le, ei amrywio neu ei ddiddymu. |
| **Gorchymyn atal dros dro** | Caiff y nyrs neu'r fydwraig ei hatal dros dro o'r gofrestr ac ni all ymarfer am gyfnod penodol o amser, na fydd yn fwy na blwyddyn i ddechrau. Rhaid i'r gorchymyn atal dros dro gael ei adolygu cyn iddo ddod i ben a gellir cyflwyno un arall yn ei le, ei amrywio neu ei ddiddymu. |
| **Gorchymyn dileu** | Caiff y nyrs neu'r fydwraig ei dileu o'r gofrestr ac ni chaiff ymarfer fel nyrs na bydwraig yn y DU. |

## Cipolwg ar ein gwaith yn 2011-2012

**4,407 o atgyfeiriadau yn 2011-12**

- 0.6 y cant o 671,668 o nyrsys a bydwragedd cofrestredig yn fras.
- 48 y cant yn fwy ers mis Ebrill 2009 (2010-2011: 4,211; 2009-2010: 2,986).

**922 o orchmynion interim wedi'u gwneud** i gyfyngu ar ymarfer nyrs neu fydwraig neu atal nyrs neu fydwraig dros dro am gyfnod tra bod canlyniad yr achos neu apêl yn yr arfaeth.

**3,797 o achosion wedi'u cau/cwblhau yn 2011-2012**

- 1,869 o achosion wedi'u cau ar ôl eu hasesu gyntaf (sgrinio).
- 1,175 o achosion wedi'u cau gan y Pwyllgor Ymchwilio.
- 753 o achosion wedi'u cwblhau ar y cam dyfarnu.

**952 o achosion yn destun dyfarniad gan y Pwyllgor Ymchwilio**

- 866 wedi'u hanfon i'r Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd.
- 86 wedi'u hanfon i'r Pwyllgor Iechyd.

**753 o achosion wedi'u cwblhau ar y cam dyfarnu yn 2011-2012**

- 103 o achosion lle nodwyd nad oedd addasrwydd i ymarfer yn ddiffygiol.
- 650 o achosion lle nodwyd bod addasrwydd i ymarfer yn ddiffygiol a lle rhoddwyd sancsiwn.
    - 365 o nyrsys neu fydwragedd wedi'u dileu o'r gofrestr.
    - 136 o nyrsys neu fydwragedd wedi'u hatal dros dro o'r gofrestr.
    - 51 o nyrsys neu fydwragedd yn destun amodau o ran y ffordd y gallant ymarfer.
    - 98 o nyrsys neu fydwragedd yn cael gorchymyn rhybudd.

**13 o apeliadau yn erbyn ein penderfyniadau yn cael eu cwblhau**

- 11 o apeliadau gan nyrsys neu fydwragedd yn erbyn ein penderfyniad.
- Un adolygiad barnwrol gan gychwynnydd y pryderon.
- Un atgyfeiriad gan CHRE am ei fod o'r farn nad oedd penderfyniad yn ddigon llym.

**Pum cais am adferiad i'r gofrestr**

- Pedwar ymgeisydd yn llwyddiannus; Un ymgeisydd yn aflwyddiannus.

**Un cofnod twyllodrus neu anghywir ar y gofrestr**

- Un unigolyn ar y gofrestr drwy dwyll ac yn cael ei ddileu.

## Sut rydym yn gwybod a oes problem?

Gall unrhyw un ddweud wrthym os oes ganddo bryder am addasrwydd i ymarfer nyrs neu fydwraig. Gallai fod yn unrhyw un o'r canlynol:

- Rhywun sy'n defnyddio gwasanaethau nyrs neu fydwraig.
- Aelod o'r cyhoedd.
- Cyflogwr neu reolwr y nyrs neu'r fydwraig.
- Rhywun sy'n gweithio gyda'r nyrs neu'r fydwraig.
- Yr heddlu.
- Sefydliadau eraill sy'n gyfrifol am reoleiddio gofal iechyd, megis y Comisiwn Ansawdd Gofal.

Gallwn hefyd agor achos ein hunain os credwn fod angen gwneud hynny.

Nid oes terfyn amser ar wneud atgyfeiriad ond mae'n well tynnu ein sylw at bryderon cyn gynted â phosibl fel ein bod yn fwy tebygol o allu eu hystyried yn llawn a chael gafael ar yr holl dystiolaeth sydd ei hangen arnom.

**Sicrhau bod yr achosion cywir yn ein cyrraedd**

Rydym yn disgwyl i gyflogwyr a chydweithwyr nyrsys a bydwragedd roi gwybod i ni os byddant yn pryderu am addasrwydd nyrs neu fydwraig i ymarfer. Rydym yn atgoffa nyrsys a bydwragedd yn gyson o'u dyletswydd o dan y cod i ddweud wrthym os bydd ganddynt bryderon am gydweithiwr.

Gan fod y rhan fwyaf o'n hachosion yn dod o gyflogwyr (42 y cant y llynedd), rydym yn gweithio'n agos gyda'r sawl sy'n cyflogi nyrsys neu fydwragedd fel eu bod yn gwybod pryd i atgyfeirio achosion atom. Ym mis Awst 2011, gwnaethom gyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru er mwyn helpu cyflogwyr i ddeall ein prosesau yn well.[7] Gwnaethom hefyd gynnal rhaglen helaeth o ymweliadau a chyfarfodydd ledled y pedair gwlad i drafod ein gwaith gyda hwy. Yn ogystal, gall cyfarwyddwyr nyrsio, penaethiaid bydwreigiaeth a swyddogion bydwreigiaeth awdurdodau goruchwylio lleol ffonio ein llinell gymorth ddynodedig i geisio cyngor neu wybodaeth am achosion posibl a dyna a wnaeth 101 yn ystod 2011-2012.

Rydym hefyd yn gweithio gyda grwpiau cymorth cleifion fel eu bod yn gallu deall yn well ba achosion y gallwn ymchwilio iddynt a gwella'r cyngor y maent yn ei roi i gleifion ac eraill. Mae ein llyfryn *Complaints against nurses and midwives: Helping you support patients and the public* a luniwyd gyda chymorth gan ein grŵp cynnwys cleifion a'r cyhoedd, yn anelu at helpu'r grwpiau hyn i wella'r cymorth y maent yn ei roi i gleifion, defnyddwyr gwasanaethau ac aelodau eraill o'r cyhoedd.[8]


---

7 www.nmc-uk.org/Documents/FtP_Information/Advice-and-information-for-employers-of-nurses-and-midwives20110816.pdf
8 www.nmc-uk.org/supporting-patients

**Tabl 1 – Pwy a wnaeth atgyfeirio achosion atom yn 2011-2012?**

| Ffynhonnell atgyfeiriadau newydd | Nifer yr atgyfeiriadau newydd | Canran |
|---|---|---|
| Cyflogwr | 1,856 | 42% |
| Aelod o'r cyhoedd, defnyddiwr gwasanaeth neu glaf | 835 | 19% |
| Heddlu | 745 | 17% |
| Hunanatgyfeiriad | 290 | 7% |
| Arall (gan gynnwys atgyfeiriadau gan gyfreithwyr a chydweithwyr) | 281 | 6% |
| Cofrestrydd CNB | 211 | 5% |
| Corff rheoleiddiol neu broffesiynol arall | 103 | 2% |
| Atgyfeiriwr yn anhysbys | 86 | 2% |
| **Cyfanswm** | **4,407** | **100%** |

**Siart 1: Pwy a wnaeth atgyfeirio achosion atom yn 2011-2012?**



## Sut rydym yn ymdrin â phryderon a godir

Pan fyddwn yn cael atgyfeiriad, cymerwn y camau canlynol fel arfer:

- Asesiad cychwynnol (sgrinio) o'r honiad neu'r gŵyn, gan gynnwys pennu a oes angen gweithredu ar fyrder.

  Os byddwn, ar y cam asesu cychwynnol, o'r farn nad yw'r honiad, ar ei ben ei hun, yn ddigon difrifol i gymryd camau rheoleiddio, cysylltwn â chyflogwr y nyrs neu'r fydwraig i gadarnhau nad oes ganddo unrhyw bryderon addasrwydd i ymarfer. Ar ôl pennu hyn, gall yr achos gael ei gau'n gyffredinol.

- Lle y bo angen, ymchwilio i'r honiad neu'r gŵyn: y cam 'ymchwilio'.

- Lle y bo angen, cynnal gwrandawiad neu gyfarfod i gyrraedd penderfyniad terfynol a phennu pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd. Y cam 'dyfarnu' yw hwn.

Cafodd ein rheolau addasrwydd i ymarfer, sy'n nodi sut rydym yn ymdrin ag achosion, eu diwygio ym mis Chwefror 2012 er mwyn ein helpu i gynnal achosion yn fwy cyflym ac yn fwy effeithlon.[9] Mae'r siart ar dudalen 12 yn dangos beth sy'n digwydd i achosion ar ôl i ni eu cael. Ein nod yw dechrau diwrnod cyntaf cam gwrandawiad neu gyfarfod y broses ddyfarnu o fewn 18 mis i'r adeg y caiff pryder ei godi. Fodd bynnag, nid ydym yn cyflawni hyn eto oherwydd y nifer uchel o achosion sydd gennym ar hyn o bryd a'u cymhlethdod.

**Pwyllgorau ymarfer**

Caiff achosion eu hystyried gan ein pwyllgorau ymarfer. Mae tri math o bwyllgor ymarfer:

- **Pwyllgor Ymchwilio** - mae'r pwyllgor hwn yn penderfynu a oes achos i'w ateb. Os yw o'r farn bod achos i'w ateb, bydd yn anfon yr achos i'r Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd neu'r Pwyllgor Iechyd am benderfyniad.

- **Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd** - mae'r pwyllgor hwn yn penderfynu achosion lle ceir honiadau sy'n ymwneud ag ymddygiad a/neu gymhwysedd y nyrs neu'r fydwraig.

- **Pwyllgor Iechyd** - mae'r pwyllgor hwn yn penderfynu achosion lle ceir honiadau sy'n ymwneud ag iechyd corfforol a/neu iechyd meddwl y nyrs neu'r fydwraig.

Ystyrir achosion unigol gan banel o'r pwyllgor perthnasol, sy'n cynnwys nyrsys, bydwragedd a phobl leyg o'r tu allan i'r proffesiynau, Bydd pob panel yn cynnwys cadeirydd, aelod lleyg a nyrs neu fydwraig. Caiff pob panelwr ei recriwtio mewn modd agored a thryloyw a oruchwylir gan y Bwrdd Penodiadau.

Mae'r Bwrdd Penodiadau yn bwyllgor o'r Cyngor ac mae'n cynnwys pum aelod, nad yw'r un ohonynt yn aelod o'r Cyngor. Caiff aelodau'r Bwrdd Penodiadau eu recriwtio mewn modd agored a thryloyw hefyd.

9 www.nmc-uk.org/Documents/Legislation/NMC-Fitness-to-Practise-Rules-2004-consolidated-text-effective-from-06022012.pdf

Cynorthwyir aelodau paneli addasrwydd i ymarfer gan y Tîm Cymorth Panel. Caiff pob aelod o banel hyfforddiant ac arweiniad ar sut i gyflawni ei rôl.

Ar 31 Mawrth 2012, roedd 416 o aelodau panel, yn cynnwys 119 o gadeiryddion. Mae 157 o aelodau panel yn nyrsys neu'n fydwragedd.

Rhoddir rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae paneli'n gweithio ar ein gwefan.[10]

**Ethnigrwydd ac amrywiaeth aelodau paneli**

Rydym yn monitro ethnigrwydd ac amrywiaeth aelodau paneli addasrwydd i ymarfer ac yn cyhoeddi data ar gyfansoddiad yr aelodau hynny, yn fwyaf diweddar ym mis Tachwedd 2011. Dangosodd hyn fod aelodau paneli yn adlewyrchu cyfansoddiad poblogaeth y DU gyfan yn gyffredinol mewn perthynas â'r rhan fwyaf o agweddau ar ethnigrwydd ac amrywiaeth.[11] Gobeithiwn gyhoeddi gwybodaeth wedi'i diweddaru yn fuan.


Mae rhagor o wybodaeth am waith y CNB, gan gynnwys sut rydym yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a sut rydym yn defnyddio data ar ethnigrwydd ac amrywiaeth, yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2011-2012.

10 www.nmc-uk.org/Hearings/How-the-process-works.

11 www.nmc-uk.org/Documents/CouncilPapersAndDocuments/Council2011/NMC-Council-papers-November-2011.PDF


## Proses addasrwydd i ymarfer

Mae'r broses hon yn gymwys i bob achos ers 6 Chwefror 2012




### Esboniad o dermau a mathau o siartiau

PI - Pwyllgor Iechyd
PYCh - Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd



## Asesiad cychwynnol


Pan fyddwn yn cael atgyfeiriad newydd, awn ati'n gyntaf i weld a yw'r unigolyn y gwnaed cwyn amdano yn nyrs neu'n fydwraig ar ein cofrestr. Os na fyddwn, ar ôl yr asesiad cychwynnol (sgrinio), yn gallu gweld bod yr unigolyn yn nyrs neu'n fydwraig gofrestredig mae'n rhaid i ni gau'r achos.

Yn ystod 2011-2012 cawsom 4,407 o atgyfeiriadau newydd. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 48 y cant ers mis Ebrill 2009, fel y nodir yn y tabl isod.

**Tabl 2: Atgyfeiriadau newydd rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2012**

| Mis | 2009-2010 | 2010-2011 | 2011-2012 |
|---|---|---|---|
| Ebrill | 233 | 393 | 294 |
| Mai | 181 | 331 | 342 |
| Mehefin | 249 | 337 | 390 |
| Gorffennaf | 231 | 352 | 403 |
| Awst | 239 | 278 | 383 |
| Medi | 186 | 394 | 377 |
| Hydref | 242 | 302 | 378 |
| Tachwedd | 244 | 333 | 419 |
| Rhagfyr | 279 | 291 | 356 |
| Ionawr | 266 | 365 | 378 |
| Chwefror | 262 | 473 | 315 |
| Mawrth | 374 | 362 | 372 |
| **Cyfanswm** | **2,986** | **4,211** | **4,407** |

**Siart 2: Atgyfeiriadau newydd rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2012**




**Tabl 3: Atgyfeiriadau newydd fesul gwlad o gymharu â chyfraddau cofrestru fesul gwlad**

Dylid nodi, ar 31 Mawrth 2012, fod 1,217 o achosion (atgyfeiriadau nas nodwyd) lle nad oeddem, ar y cam hwnnw, wedi nodi p'un a oedd yr unigolyn y cafwyd cwyn amdano yn nyrs neu'n fydwraig ar ein cofrestr.

| Gwlad | Nifer ar y gofrestr | Canran y gofrestr | Nifer yr atgyfeiriadau | Canran yr atgyfeiriadau |
|---|---|---|---|---|
| Lloegr | 526,568 | 78% | 2,277 | 71% |
| Yr Alban | 69,384 | 10% | 253 | 8% |
| Cymru | 35,211 | 5% | 127 | 4% |
| Gogledd Iwerddon | 23,196 | 4% | 2 | Llai nag 1% |
| Tramor (yn cynnwys UE) | 17,309 | 3% | 33 | 1% |
| Anhysbys | - | - | 498 | 16% |
| **Cyfanswm yr atgyfeiriadau a nodwyd** | **671,668** | **100%** | **3,190** | **100%** |
| Atgyfeiriadau nas nodwyd | - | - | 1,217 | - |
| **Cyfanswm yr atgyfeiriadau** | **-** | **-** | **4,407** | **-** |

**Siart 3: Atgyfeiriadau newydd a nodwyd fesul gwlad o gymharu â chyfraddau cofrestru fesul gwlad**



## Yr hyn rydym yn ei wybod am ethnigrwydd ac amrywiaeth yr unigolion y'u hatgyfeirir atom

O'n cofrestr rydym yn gwybod oedran a rhyw pob nyrs neu fydwraig a gaiff ei hatgyfeirio atom. Ers 2009, rydym wedi gofyn i bob nyrs a bydwraig a gofrestrir gyda ni lenwi ffurflen monitro amrywiaeth. Rhoddir y wybodaeth hon yn gwbl wirfoddol ac ni allwn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un ei rhoi i ni. Fodd bynnag, argymhellwn fod nyrsys a bydwragedd yn llenwi'r ffurflen monitro amrywiaeth ac rydym wedi ei gwneud yn haws iddynt wneud hynny drwy ddarparu ffurflenni i'w llenwi ar-lein.

Ym mis Gorffennaf 2011, roedd 43 y cant o nyrsys a bydwragedd cofrestredig wedi dychwelyd ffurflen atom a defnyddiwyd y wybodaeth hon gennym i gyhoeddi dadansoddiad o ethnigrwydd ac amrywiaeth nyrsys a bydwragedd ar ein cofrestr. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan yn **www.nmc-uk.org/equality-diversity-data**.

Rydym wedi defnyddio'r data sydd gennym i ddadansoddi ethnigrwydd ac amrywiaeth y nyrsys a'r bydwragedd sydd wedi'u hatgyfeirio atom. Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus iawn wrth ystyried y data hwn oherwydd ni all roi'r darlun llawn. Y rheswm dros hyn yw, ar gamau gwahanol o'r broses addasrwydd i ymarfer, mae gennym lefelau gwahanol o ddata amrywiaeth ar gael. Er enghraifft, mae gennym ddata ar 37 y cant o rai elfennau o amrywiaeth ar gyfer pob achos newydd a atgyfeirir atom, ond ar y cam dyfarnu, mae'r data sydd ar gael ar gyfer rhai elfennau o amrywiaeth yn lleihau i 20 y cant. Mae angen ystyried hyn wrth edrych ar y wybodaeth hon. Byddai'n amhriodol ac, o bosibl, yn gamarweiniol ceisio llunio unrhyw gasgliadau ohoni neu ei dehongli'n fwy cyffredinol.

Byddwn yn edrych ar y wybodaeth sydd gennym yn ystod 2012-2013 er mwyn gweld beth y gall ddweud wrthym, o ystyried y cyfyngiadau hyn, am ein gwaith a ph'un a oes i hyn unrhyw oblygiadau neu effaith o ran y grwpiau â nodweddion a ddiogelir fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.[12]

---


12 Y nodweddion a ddiogelir yw oedran, anabledd, statws ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

**Tabl 4: Atgyfeiriadau newydd yn ôl rhyw**

Ar 31 Mawrth 2012, roedd 90 y cant o'r gofrestr yn fenywaidd a 10 y cant yn wrywaidd.

| Rhyw | Cyfanswm yr atgyfeiriadau | Canran |
|---|---|---|
| Gwryw | 711 | 22% |
| Benyw | 2,479 | 78% |
| **Cyfanswm yr atgyfeiriadau a nodwyd** | **3,190** | **100%** |
| Heb eu nodi | 1,217 | - |
| **Cyfanswm yr holl atgyfeiriadau** | **4,407** | **-** |


**Siart 4: Atgyfeiriadau newydd a nodwyd yn ôl rhyw**




**Tabl 5: Atgyfeiriadau newydd yn ôl oedran**

| Oedran | Cyfanswm yr atgyfeiriadau | Canran |
|---|---|---|
| 19 - 29 oed | 146 | 5% |
| 30 - 39 oed | 650 | 20% |
| 40 - 59 oed | 2,099 | 66% |
| 60 oed a throsodd | 295 | 9% |
| **Cyfanswm yr atgyfeiriadau a nodwyd** | **3,190** | **100%** |
| Heb eu nodi | 1,217 | - |
| **Cyfanswm yr holl atgyfeiriadau** | **4,407** | **-** |

**Siart 5: Atgyfeiriadau newydd yn ôl oedran**




**Tabl 6: Atgyfeiriadau newydd yn ôl ethnigrwydd**

Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar 37 y cant o atgyfeiriadau newydd a nodwyd y mae data ar ethnigrwydd ar gael ar eu cyfer.

| Grŵp ethnig | Cyfanswm yr atgyfeiriadau | Canran |
|---|---|---|
| Gwyn | 749 | 23% |
| Du | 265 | 8% |
| Asiaidd | 119 | 4% |
| Cymysg | 30 | 1% |
| Arall | 18 | 1% |
| Dewis peidio ag ateb | 28 | 1% |
| **Ethnigrwydd nad yw'n hysbys** | **1,981** | **62%** |
| **Cyfanswm yr atgyfeiriadau a nodwyd** | **3,190** | **100%** |
| Atgyfeiriadau nas nodwyd | 1,217 | - |
| **Cyfanswm yr holl atgyfeiriadau** | **4,407** | **-** |

**Siart 6: Atgyfeiriadau newydd a nodwyd yn ôl ethnigrwydd**




**Tabl 7: Atgyfeiriadau newydd yn ôl crefydd neu gred**

Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar 34 y cant o atgyfeiriadau newydd a nodwyd y mae data ar grefydd neu gred ar gael ar eu cyfer.

| Crefydd neu gred | Cyfanswm yr atgyfeiriadau | Canran |
|---|---:|---:|
| Cristnogaeth | 776 | 24% |
| Dim crefydd | 155 | 5% |
| Dewis peidio ag ateb | 102 | 3% |
| Crefydd arall | 56 | 2% |
| Moslemiaeth | 25 | Llai nag 1% |
| Bwdhaeth | 19 | Llai nag 1% |
| Hindŵaeth | 19 | Llai nag 1% |
| Iddewiaeth | 17 | Llai nag 1% |
| Siciaeth | 7 | Llai nag 1% |
| **Anhysbys** | **2,014** | **63%** |
| **Cyfanswm yr atgyfeiriadau a nodwyd** | **3,190** | **100%** |
| Heb eu nodi | 1,217 | - |
| **Cyfanswm yr holl atgyfeiriadau** | **4,407** | **-** |

**Siart 7: Atgyfeiriadau newydd a nodwyd yn ôl crefydd neu gred**




**Tabl 8: Atgyfeiriadau newydd yn ôl cyfeiriadedd rhywiol**

Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar 30 y cant o atgyfeiriadau newydd a nodwyd y mae data ar gyfeiriadedd rhywiol ar gael ar eu cyfer.

| Cyfeiriadedd rhywiol | Cyfanswm yr atgyfeiriadau | Canran |
|---|---|---|
| Heterorywiol | 909 | 28% |
| Dewis peidio ag ateb | 167 | 5% |
| Deurywiol | 29 | 1% |
| Hoyw neu lesbiaidd | 38 | 1% |
| **Anhysbys** | **2,047** | **65%** |
| **Cyfanswm yr atgyfeiriadau a nodwyd** | **3,190** | **100%** |
| Heb eu nodi | 1,217 | - |
| **Cyfanswm yr holl atgyfeiriadau** | **4,407** | **-** |

**Siart 8: Atgyfeiriadau newydd a nodwyd yn ôl cyfeiriadedd rhywiol**




**Tabl 9: Atgyfeiriadau newydd yn ôl anabledd**

Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar 34 y cant o atgyfeiriadau newydd a nodwyd y mae data ar anabledd ar gael ar eu cyfer.

| Anabledd | Cyfanswm yr atgyfeiriadau | Canran |
|---|---|---|
| Ie | 98 | 3% |
| Na | 982 | 31% |
| Dewis peidio ag ateb | 63 | 2% |
| **Anhysbys** | **2,047** | **64%** |
| **Cyfanswm yr atgyfeiriadau a nodwyd** | **3,190** | **100%** |
| Heb eu nodi | 1,217 | - |
| **Cyfanswm yr holl atgyfeiriadau** | **4,407** | **-** |

**Siart 9: Atgyfeiriadau newydd a nodwyd yn ôl anabledd**



## Natur yr honiadau a gafodd eu hatgyfeirio atom


Mae'r tabl isod yn dangos y prif fathau o honiadau a wnaed mewn atgyfeiriadau newydd a gawsom yn ystod 2011-2012. Rhoddir dadansoddiad manylach o nifer yr honiadau ym mhob categori yn Atodiad 1.

Mae a wnelo llawer o achosion â mwy nag un math o honiad ynghylch nyrs neu fydwraig benodol felly dyna'r rheswm bod cyfanswm nifer yr honiadau, sef 8,300, yn llawer uwch na nifer yr atgyfeiriadau newydd (4,407).

**Tabl 10: Mathau o honiadau a wnaed mewn atgyfeiriadau newydd a gafwyd yn 2011-2012**

| Mathau o honiadau | Cyfanswm yr atgyfeiriadau | Canran |
|---|---|---|
| Camymddwyn | 4,250 | 51% |
| Diffyg cymhwysedd | 2,412 | 29% |
| Troseddol | 1,385 | 17% |
| Iechyd | 145 | 2% |
| Ymchwiliad yr heddlu | 51 | Llai nag 1% |
| Cofnod twyllodrus | 47 | Llai nag 1% |
| Penderfyniad gan gorff arall (er enghraifft, Bwrdd Nyrsio Iwerddon, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal) | 10 | Llai nag 1% |
| **Cyfanswm** | **8,300** | **100%** |

**Siart 10: Mathau o honiadau a wnaed mewn atgyfeiriadau newydd a gafwyd yn 2011-2012**



# Gweithredu ar fyrder i ddiogelu'r cyhoedd

Ni yw'r unig sefydliad all atal nyrsys a bydwragedd rhag ymarfer yn y DU os ydynt yn peri risg i ddiogelwch cleifion.

Os bydd iechyd a lles y cyhoedd mewn perygl uniongyrchol a difrifol, gallwn weithredu ar fyrder, ar ffurf gorchmynion interim. Mewn sefyllfa o'r fath, gofynnir i banel pwyllgor ymarfer ystyried a ddylai'r nyrs neu'r fydwraig gael ei hatal dros dro ar unwaith neu a ddylid cyfyngu ar y ffordd y gall ymarfer, nes i ni allu ymchwilio i'r achos yn drwyadl.

Rydym yn asesu pob achos yn gyson drwy gydol y broses felly os daw gwybodaeth newydd i'r amlwg ar unrhyw adeg sy'n awgrymu bod risg uniongyrchol a difrifol i'r cyhoedd, gallwn ystyried a oes angen cyflwyno gorchymyn interim.


Caiff gwrandawiadau i ystyried gorchymyn interim eu cynnal yn gyhoeddus. Bydd panel yn ystyried y canlynol mewn perthynas â'r gorchymyn interim:

- A oes ei angen i ddiogelu'r cyhoedd.
- A yw er budd y cyhoedd.
- A yw er budd y nyrs neu'r fydwraig.

## Ein perfformiad yn 2011-2012

Rydym yn mesur ac yn monitro ein perfformiad gan ddefnyddio dangosyddion perfformiad allweddol (DPAau). Rydym wedi pennu DPA ar gyfer gosod gorchmynion interim o fewn 28 diwrnod i gael achos lle nodwn fod angen gweithredu ar fyrder i ddiogelu'r cyhoedd. Yn 2011-2012, yr amser canolrif a gymerwyd oedd 28 diwrnod a'r amser cyfartalog a gymerwyd oedd 29.8 diwrnod fel y nodir yn y tabl isod.

**Nifer y diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i osod gorchymyn interim**




## Canlyniadau gorchmynion interim

### Tabl 11: Gorchmynion interim a osodwyd

| Penderfyniadau gorchmynion interim | Nifer y gorchmynion interim | Canran |
|---|---|---|
| Gorchymyn amodau ymarfer interim | 259 | 28% |
| Gorchymyn atal dros dro interim | 663 | 72% |
| **Cyfanswm y gorchmynion interim a osodwyd** | **922** | **100%** |


### Siart 11: Gorchmynion interim a osodwyd




### Tabl 12: Gorchmynion interim a osodwyd yn ôl rhyw

| Gorchmynion interim yn ôl rhyw | Penderfyniadau gorchmynion interim | Nifer y gorchmynion interim | Canran |
|---|---|---|---|
| Gwryw | Gorchymyn amodau ymarfer interim | 57 | 6% |
| | Gorchymyn atal dros dro interim | 191 | 21% |
| **Cyfanswm y gorchmynion interim - gwryw** | | **248** | **27%** |
| Benyw | Gorchymyn amodau ymarfer interim | 202 | 22% |
| | Gorchymyn atal dros dro interim | 472 | 51% |
| **Cyfanswm y gorchmynion interim - benyw** | | **674** | **73%** |
| **Cyfanswm y gorchmynion interim a wnaed** | | **922** | **100%** |


### Siart 12: Gorchmynion interim a osodwyd yn ôl rhyw



**Tabl 13: Gorchmynion interim a osodwyd yn ôl oedran**

| Oedran | Nifer y gorchmynion interim | Canran |
|---|---|---|
| 19 - 29 oed | 28 | 3% |
| 30 - 39 oed | 180 | 20% |
| 40 - 59 oed | 611 | 66% |
| 60 oed a throsodd | 103 | 11% |
| **Cyfanswm** | **922** | **100%** |

**Siart 13: Gorchmynion interim a osodwyd yn ôl oedran**




**Tabl 14: Gorchmynion interim a osodwyd yn ôl ethnigrwydd**

Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar 35 y cant o achosion gorchmynion interim y mae data ar ethnigrwydd ar gael ar eu cyfer.

| Grŵp ethnig | Gorchmynion atal dros dro interim | Gorchmynion amodau ymarfer interim | Cyfanswm y gorchmynion interim | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Gwyn | 135 | 57 | 192 | 21% |
| Du | 49 | 29 | 78 | 9% |
| Asiaidd | 27 | 11 | 38 | 4% |
| Dewis peidio ag ateb | 5 | 7 | 12 | 1% |
| Cymysg | 4 | 4 | 8 | Llai nag 1% |
| Arall | 1 | 1 | 2 | Llai nag 1% |
| **Anhysbys** | **442** | **150** | **592** | **64%** |
| **Cyfanswm** | **663** | **259** | **922** | **100%** |

**Siart 14: Gorchmynion interim a osodwyd yn ôl ethnigrwydd**




**Tabl 15: Gorchmynion interim a osodwyd yn ôl crefydd neu gred**

Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar 32 y cant o achosion gorchmynion interim y mae data ar grefydd neu gred ar gael ar eu cyfer.

| Crefydd neu gred | Gorchmynion atal dros dro interim | Gorchmynion amodau ymarfer interim | Cyfanswm y gorchmynion interim | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Cristnogaeth | 148 | 75 | 223 | 24% |
| Dim crefydd | 28 | 12 | 40 | 4% |
| Dewis peidio ag ateb | 22 | 14 | 36 | 4% |
| Crefydd arall | 10 | 5 | 15 | 2% |
| Moslemiaeth | 6 | 0 | 6 | Llai nag 1% |
| Bwdhaeth | 4 | 1 | 5 | Llai nag 1% |
| Hindŵaeth | 2 | 2 | 4 | Llai nag 1% |
| Iddewiaeth | 2 | 1 | 3 | Llai nag 1% |
| Siciaeth | 0 | 0 | 0 | 0% |
| **Anhysbys** | **441** | **149** | **590** | **64%** |
| **Cyfanswm** | **663** | **259** | **922** | **100%** |

**Siart 15: Gorchmynion interim a osodwyd yn ôl crefydd neu gred**




**Tabl 16: Gorchmynion interim a osodwyd yn ôl cyfeiriadedd rhywiol**

Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar 28 y cant o achosion gorchmynion interim y mae data ar gyfeiriadedd rhywiol ar gael ar eu cyfer.

| Cyfeiriadedd rhywiol | Gorchmynion atal dros dro interim | Gorchmynion amodau ymarfer interim | Cyfanswm y gorchmynion interim | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Heterorywiol | 161 | 78 | 239 | 26% |
| Dewis peidio ag ateb | 45 | 24 | 69 | 8% |
| Hoyw neu lesbiaidd | 8 | 4 | 12 | 1% |
| Deurywiol | 9 | 0 | 9 | 1% |
| **Anhysbys** | **440** | **153** | **593** | **64%** |
| **Cyfanswm** | **663** | **259** | **922** | **100%** |

**Siart 16: Gorchmynion interim a osodwyd yn ôl cyfeiriadedd rhywiol**




**Tabl 17: Gorchmynion interim a osodwyd yn ôl anabledd**

Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar 34 y cant o achosion gorchmynion interim y mae data ar anabledd ar gael ar eu cyfer.

| Anabledd | Gorchmynion atal dros dro interim | Gorchmynion amodau ymarfer interim | Cyfanswm y gorchmynion interim | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Ie | 15 | 8 | 23 | 3% |
| Na | 191 | 95 | 286 | 31% |
| Dewis peidio ag ateb | 13 | 6 | 19 | 2% |
| **Anhysbys** | **444** | **150** | **594** | **64%** |
| **Cyfanswm** | **663** | **259** | **922** | **100%** |

**Siart 17: Gorchmynion interim a osodwyd yn ôl anabledd**



## Ymchwiliadau

Pan fyddwn yn fodlon y gallwn ymdrin ag achos a'n bod wedi cynnal ymchwiliad, caiff yr achos ei ystyried gan banel o'r Pwyllgor Ymchwilio. Mater i'r Pwyllgor Ymchwilio yw penderfynu a oes achos i'w ateb. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddo benderfynu a oes siawns wirioneddol y gellid profi'r honiad ar y cam dyfarnu. Bydd paneli'r Pwyllgor Ymchwilio yn gwneud eu gwaith yn breifat.

Os bydd un o baneli'r Pwyllgor Ymchwilio yn penderfynu nad oes unrhyw achos i'w ateb, mae'r mater ar ben.  Fodd bynnag, gall yr achos gael ei ailagor os gwneir atgyfeiriad arall ynghylch yr un nyrs neu fydwraig ymhen tair blynedd. Yn 2011-2012, pennodd y Pwyllgor Ymchwilio nad oedd achos i'w ateb mewn 1,175 o achosion (55 y cant o'r achosion a gafodd eu hystyried).

Os bydd panel yn penderfynu bod achos i'w ateb, mae'n anfon yr achos i'r Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd neu'r Pwyllgor Iechyd yn dibynnu ar natur yr honiadau dan sylw. Yn 2011-2012, cafodd 952 o achosion eu hanfon am ddyfarniad.


### Ein perfformiad yn 2011-2012

Yn 2011-2012, ystyriodd y Pwyllgor Ymchwilio 3,596 o achosion ar un neu fwy o achlysuron a daeth i gasgliad terfynol mewn perthynas â 2,127 o achosion.

Anelwn at gwblhau ein hymchwiliadau ymhen 12 mis. Yn ystod 2011-2012, gwnaethom gymryd 17.6 mis ar gyfartaledd i gwblhau ymchwiliadau fel y dangosir yn y tabl isod. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r newidiadau yn ein rheolau a gwelliannau eraill a wnaed, ar gyfer achosion a gafwyd ar ôl mis Ionawr 2011, cymerwyd 10.38 mis ar gyfartaledd ym mis Mawrth 2012.

Amser a gymerwyd ar gyfartaledd (mewn misoedd) i gwblhau ein hymchwiliadau

DPA = 12 mis




**Canlyniadau'r Pwyllgor Ymchwilio**

**Tabl 18: Canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio**

| Canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio | Nifer yr achosion | Canran |
|---|---|---|
| Atgyfeirio at y Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd (PYCh) | 866 | 41% |
| Atgyfeirio at y Pwyllgor Iechyd (PI) | 86 | 4% |
| **Cyfanswm a anfonwyd am ddyfarniad** | **952** | **45%** |
| Dim achos i'w ateb | 1,175 | 55% |
| **Cyfanswm canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio** | **2,127** | **100%** |


**Siart 18: Canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio**




**Tabl 19: Canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio yn ôl rhyw**

| Rhyw | Dim achos i'w ateb | Anfonwyd am ddyfarniad | Cyfanswm y canlyniadau | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Gwryw | 256 | 275 | 531 | 25% |
| Benyw | 919 | 677 | 1596 | 75% |
| **Cyfanswm canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio** | **1,175** | **952** | **2,127** | 100% |


**Siart 19: Canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio yn ôl rhyw**



**Tabl 20: Canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio yn ôl oedran**

| Oedran | Dim achos i'w ateb | Anfonwyd am ddyfarniad | Cyfanswm y canlyniadau | Canran |
|---|---|---|---|---|
| 19 - 29 oed | 48 | 20 | 68 | 3% |
| 30 - 39 oed | 229 | 166 | 395 | 18.5% |
| 40 - 59 oed | 777 | 660 | 1,437 | 67.5% |
| 60 oed a throsodd | 121 | 106 | 227 | 11% |
| **Cyfanswm canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio** | **1,175** | **952** | **2,127** | **100%** |

**Siart 20: Canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio yn ôl oedran**




**Tabl 21: Canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio yn ôl ethnigrwydd**

Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar 34 y cant o achosion y mae data ar ethnigrwydd ar gael ar eu cyfer.

| Grŵp ethnig | Dim achos i'w ateb | Anfonwyd am ddyfarniad | Cyfanswm y canlyniadau | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Gwyn | 292 | 162 | 454 | 21% |
| Du | 89 | 81 | 170 | 8% |
| Asiaidd | 33 | 37 | 70 | 3% |
| Dewis peidio ag ateb | 10 | 11 | 21 | 1% |
| Cymysg | 7 | 11 | 18 | Llai nag 1% |
| Arall | 4 | 13 | 17 | Llai nag 1% |
| **Anhysbys** | **740** | **637** | **1377** | **65%** |
| **Cyfanswm canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio** | **1,175** | **952** | **2,127** | **100%** |

**Siart 21: Canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio yn ôl ethnigrwydd**




**Tabl 22: Canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio yn ôl crefydd neu gred**

Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar 32 y cant o achosion y mae data ar grefydd neu gred ar gael ar eu cyfer.

| Crefydd neu gred | Dim achos i'w ateb | Anfonwyd am ddyfarniad | Cyfanswm y canlyniadau | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Cristnogaeth | 282 | 202 | 484 | 23% |
| Dim crefydd | 66 | 29 | 95 | 4% |
| Dewis peidio ag ateb | 40 | 34 | 74 | 3% |
| Crefydd arall | 22 | 12 | 34 | 2% |
| Moslemiaeth | 10 | 7 | 17 | 1% |
| Bwdhaeth | 8 | 5 | 13 | 1% |
| Hindŵaeth | 6 | 4 | 10 | Llai nag 1% |
| Iddewiaeth | 2 | 3 | 5 | Llai nag 1% |
| Siciaeth | 1 | 3 | 4 | Llai nag 1% |
| **Anhysbys** | **738** | **653** | **1,391** | **65%** |
| **Cyfanswm canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio** | **1,175** | **952** | **2,127** | **100%** |

**Siart 22: Canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio yn ôl crefydd neu gred**




**Tabl 23: Canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio yn ôl anabledd**

Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar 32 y cant o achosion y mae data ar anabledd ar gael ar eu cyfer.

| Anabledd | Dim achos i'w ateb | Anfonwyd am ddyfarniad | Cyfanswm y canlyniadau | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Ie | 28 | 14 | 42 | 2% |
| Na | 381 | 257 | 638 | 30% |
| Dewis peidio ag ateb | 23 | 19 | 42 | 2% |
| **Anhysbys** | **743** | **662** | **1,405** | **66%** |
| **Cyfanswm canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio** | **1,175** | **952** | **2,127** | **100%** |

**Siart 23: Canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio yn ôl anabledd**




**Tabl 24: Canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio yn ôl cyfeiriadedd rhywiol**

Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar 29 y cant o achosion y mae data ar gyfeiriadedd rhywiol ar gael ar eu cyfer.

| Cyfeiriadedd rhywiol | Dim achos i'w ateb | Anfonwyd am ddyfarniad | Cyfanswm y canlyniadau | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Heterorywiol | 354 | 211 | 565 | 27% |
| Dewis peidio ag ateb | 56 | 58 | 114 | 5% |
| Deurywiol | 8 | 15 | 23 | 1% |
| Hoyw neu lesbiaidd | 8 | 9 | 17 | 1% |
| **Anhysbys** | **749** | **659** | **1,408** | **66%** |
| **Cyfanswm canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio** | **1,175** | **952** | **2,127** | **100%** |

**Siart 24: Canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio yn ôl cyfeiriadedd rhywiol**




**Cofnodion ar y gofrestr a wnaed drwy dwyll neu'n anghywir**
Mae paneli'r Pwyllgor Ymchwilio hefyd yn ymdrin â honiadau ynghylch cofrestru nyrs neu fydwraig drwy dwyll neu'n anghywir. Bydd y paneli'n penderfynu a oes sail i'r honiadau ac, os felly, yn cyfarwyddo'r Cofrestrydd i ddileu neu ddiwygio'r cofnodion ar y gofrestr.

Yn 2011-2012 cafwyd **un cofnod drwy drwyll** lle cafodd enw'r unigolyn ei **ddileu o'r gofrestr**.

## Dyfarniadau

Caiff achosion a atgyfeirir gan y Pwyllgor Ymchwilio am ddyfarniad eu hystyried gan banel o'r Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd neu'r Pwyllgor Iechyd mewn gwrandawiad neu gyfarfod. Diben y gwrandawiad neu'r cyfarfod yw pennu a yw'r unigolyn yn peri risg i'r cyhoedd.

Bydd y paneli yn adolygu'r wybodaeth a gyflwynir ger eu bron, yn cael cyngor arbenigol, ac yn cwestiynu tystion gan gynnwys, er enghraifft, gychwynnydd y gŵyn, cyflogwyr a'r nyrs neu'r fydwraig dan sylw (neu'r sawl sy'n ei chynrychioli). Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth, bydd y panel yn penderfynu a yw'r nyrs neu'r fydwraig yn addas i ymarfer.

Os bydd y panel yn dod i'r casgliad nad dyna'r achos, bydd wedyn yn penderfynu ar y camau priodol i'w cymryd. Mewn rhai achosion, gall panel benderfynu, er bod addasrwydd i ymarfer nyrs neu fydwraig yn ddiffygiol, ar ôl ystyried yr holl amgylchiadau dan sylw, na ddylid gosod sancsiwn.

Os credir bod sancsiwn yn briodol, gan ddilyn canllawiau ar sancsiynau[13] bydd y panel yn ystyried yn eu tro ai'r sancsiynau fel y'u nodir ar dudalen 6 yw'r rhai mwyaf priodol i ddiogelu iechyd a lles y cyhoedd.

Yn gyffredinol, gwrandewir achosion iechyd yn breifat, oherwydd natur gyfrinachol y dystiolaeth feddygol sydd dan sylw. Fel rheol gwrandewir achosion ymddygiad a chymhwysedd yn gyhoeddus. Mae croeso i bawb arsylwi gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer cyhoeddus. Rhoddir gwybodaeth am sut i fod yn bresennol ynddynt yn **www.nmc-uk.org/hearings.**

Rydym hefyd yn cyhoeddi ein holl benderfyniadau terfynol ar wrandawiadau lle y gosodwyd sancsiwn a'r rhesymau drostynt yn **www.nmc-uk.org/hearings**.


## Ein perfformiad yn 2011-2012

Gwnaethom bennu targed i ddechrau cam dyfarnu gwrandawiad neu gyfarfod ymhen chwe mis i ddiwedd ymchwiliad. Yn ystod 2011-2012, ein perfformiad cyfartalog yn erbyn y targed hwn oedd 9.8 mis, fel y dangosir yn y siart ganlynol.

Fodd bynnag, o ganlyniad i'r newidiadau yn ein rheolau a gwelliannau eraill a wnaed, ar gyfer achosion a gafwyd gennym ar ôl mis Ionawr 2011, cymerwyd 8 mis ar gyfartaledd ym mis Mawrth 2012.

13 www.nmc-uk.org/Documents/FtP_Information/Indicative-Sanctions-Guidance.May-12.pdf

**Amser a gymerwyd ar gyfartaledd (mewn misoedd) rhwng cwblhau ymchwiliad a dechrau gwrandawiad neu gyfarfod**




## Canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd a'r Pwyllgor Iechyd

Fel y mae ei enw yn awgrymu, mae'r Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd yn ystyried ac yn gwneud penderfyniadau terfynol ar achosion lle ceir pryderon am ymddygiad neu gymhwysedd nyrs neu fydwraig. Gall y pwyllgor anfon achos i'r Pwyllgor Iechyd am benderfyniad os bydd o'r farn bod y materion a godir yn rhai y byddai'n fwy priodol i'r pwyllgor hwnnw eu hystyried ar yr amod nad yw'r honiadau yn ddigon difrifol y gallent arwain at orchymyn dileu.


Mae'r Pwyllgor Iechyd yn ystyried achosion lle y gall addasrwydd nyrs neu fydwraig i ymarfer fod yn ddiffygiol am resymau iechyd corfforol neu iechyd meddwl. Dim ond os bydd y nyrs neu'r fydwraig wedi cael ei hatal dros dro am gyfnod parhaus neu ei bod yn destun amodau ymarfer dros y ddwy flynedd flaenorol y gall y Pwyllgor Iechyd ddileu nyrs neu fydwraig o'r gofrestr.
Gall anfon achos i'r Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd am benderfyniad os bydd o'r farn bod y pryderon a godwyd yn ymwneud yn fwy ag ymddygiad neu gymhwysedd nyrs neu fydwraig yn hytrach na materion iechyd.

Rhydd Tabl 35 (Atodiad 1) wybodaeth am y mathau o honiadau a gafodd eu hystyried gan baneli'r Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd ar y cam dyfarnu terfynol.

**Tabl 25: Canlyniadau dyfarnu terfynol PYCh a PI**

| Canlyniadau dyfarnu terfynol PYCh a PI | Nifer yr achosion | Canran |
|---|---|---|
| Gorchmynion dileu[14] | 365 | 48% |
| Gorchmynion atal dros dro | 136 | 18% |
| Gorchmynion rhybudd | 98 | 13% |
| Gorchmynion amodau ymarfer | 51 | 7% |
| Addasrwydd i ymarfer diffygiol - dim sancsiwn | 0 | - |
| **Cyfanswm** | **650** | **86%** |
| Addasrwydd i ymarfer ddim yn ddiffygiol | 103 | 14% |
| **Cyfanswm y canlyniadau terfynol** | **753** | **100%** |

**Siart 25: Canlyniadau dyfarnu terfynol PYCh a PI**





14 Mae'r rhain yn cynnwys penderfyniadau a wnaed yn sgil adolygu gorchymyn sylweddol a osodwyd yn gynharach

**Tabl 26: Cyfanswm y canlyniadau dyfarnu terfynol yn ôl rhyw**

| Rhyw | Dileu | Atal dros dro | Rhybudd | Amodau ymarfer | Ddim yn ddiffygiol | Cyfanswm y canlyniadau terfynol | Canran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwryw | 121 | 38 | 31 | 9 | 20 | 219 | 29% |
| Benyw | 244 | 98 | 67 | 42 | 83 | 534 | 71% |
| **Cyfanswm** | **365** | **136** | **98** | **51** | **103** | **753** | **100%** |


**Siart 26: Cyfanswm y dyfarniadau terfynol yn ôl rhyw**




**Tabl 27: Canlyniadau dyfarnu terfynol PYCh a PI yn ôl oedran**

| Oedran | Dileu | Atal dros dro | Rhybudd | Amodau ymarfer | Ddim yn ddiffygiol | Cyfanswm y canlyniadau terfynol | Canran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 19-29 | 5 | 7 | 2 | 1 | 1 | 16 | 2% |
| 30-39 | 57 | 22 | 14 | 8 | 19 | 120 | 16% |
| 40-59 | 239 | 84 | 60 | 38 | 65 | 486 | 65% |
| Dros 60 | 64 | 23 | 22 | 4 | 18 | 131 | 17% |
| **Cyfanswm** | **365** | **136** | **98** | **51** | **103** | **753** | **100%** |

**Siart 27: Canlyniadau dyfarnu terfynol PYCh a PI yn ôl oedran**




**Tabl 28: Canlyniadau dyfarnu terfynol PYCh a PI yn ôl ethnigrwydd**

Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar 23 y cant o ganlyniadau dyfarnu y mae data ar ethnigrwydd ar gael ar eu cyfer.

| Grŵp ethnig | Dileu | Atal dros dro | Rhybudd | Amodau ymarfer | Ddim yn ddiffygiol | Cyfanswm y canlyniadau terfynol | Canran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyn | 15 | 21 | 13 | 13 | 20 | 82 | 11% |
| Du | 20 | 14 | 11 | 4 | 9 | 58 | 8% |
| Asiaidd | 5 | 6 | 4 | 9 | 2 | 26 | 3% |
| Dewis peidio ag ateb | 3 | 2 | 1 | 0 | 1 | 7 | 1% |
| Cymysg | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 | Llai nag 1% |
| Arall | 0 | 2 | 0 | 1 | 0 | 3 | Llai nag 1% |
| **Anhysbys** | **321** | **90** | **69** | **24** | **71** | **575** | **76%** |
| **Cyfanswm** | **365** | **136** | **98** | **51** | **103** | **753** | **100%** |

**Siart 28: Canlyniadau dyfarnu terfynol PYCh a PI yn ôl ethnigrwydd**




**Tabl 29: Canlyniadau dyfarnu terfynol PYCh a PI yn ôl crefydd neu gred**

Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar 22 y cant o ganlyniadau dyfarnu y mae data ar ethnigrwydd ar gael ar eu cyfer.

| Crefydd neu gred | Dileu | Atal dros dro | Rhybudd | Amodau ymarfer | Ddim yn ddiffygiol | Cyfanswm y canlyniadau terfynol | Canran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cristnogaeth | 35 | 30 | 20 | 20 | 24 | 129 | 17% |
| Dim crefydd | 3 | 3 | 2 | 3 | 5 | 16 | 2% |
| Dewis peidio ag ateb | 3 | 4 | 4 | 0 | 3 | 14 | 2% |
| Crefydd arall | 1 | 5 | 0 | 0 | 0 | 6 | 1% |
| Moslemiaeth | 1 | 1 | 2 | 1 | 0 | 5 | 1% |
| Bwdhaeth | 0 | 2 | 0 | 0 | 1 | 3 | Llai nag 1% |
| Hindŵaeth | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 2 | Llai nag 1% |
| Iddewiaeth | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | Llai nag 1% |
| Siciaeth | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | Llai nag 1% |
| **Anhysbys** | **321** | **91** | **69** | **26** | **69** | **576** | **76%** |
| **Cyfanswm** | **365** | **136** | **98** | **51** | **103** | **753** | **100%** |

**Siart 29: Canlyniadau dyfarnu terfynol PYCh a PI yn ôl crefydd neu gred**




**Tabl 30: Canlyniadau dyfarnu terfynol PYCh a PI yn ôl anabledd**

Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar 25 y cant o ganlyniadau dyfarnu y mae data ar anabledd ar gael ar eu cyfer.

| Anabledd | Dileu | Atal dros dro | Rhybudd | Amodau ymarfer | Ddim yn ddiffygiol | Cyfanswm y canlyniadau terfynol | Canran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ie | 2 | 3 | 3 | 4 | 9 | 21 | 3% |
| Na | 41 | 44 | 25 | 23 | 34 | 167 | 22% |
| Dewis peidio ag ateb | 1 | 2 | 1 | 3 | 2 | 9 | 1% |
| **Anhysbys** | **321** | **87** | **69** | **21** | **58** | **556** | **74%** |
| **Cyfanswm** | **365** | **136** | **98** | **51** | **103** | **753** | **100%** |

**Siart 30: Canlyniadau dyfarnu terfynol PYCh a PI yn ôl anabledd**




**Tabl 31: Canlyniadau dyfarnu terfynol PYCh a PI yn ôl cyfeiriadedd rhywiol**

Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar 20 y cant o ganlyniadau dyfarnu y mae data ar gyfeiriadedd rhywiol ar gael ar eu cyfer.

| Cyfeiriadedd rhywiol | Dileu | Atal dros dro | Rhybudd | Amodau ymarfer | Ddim yn ddiffygiol | Cyfanswm y canlyniadau terfynol | Canran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Heterorywiol | 32 | 29 | 24 | 31 | 28 | 144 | 19% |
| Dewis peidio ag ateb | 8 | 14 | 5 | 9 | 7 | 43 | 6% |
| Deurywiol | 1 | 2 | 0 | 1 | 0 | 4 | Llai nag 1% |
| Hoyw neu lesbiaidd | 3 | 1 | 0 | 1 | 0 | 5 | Llai nag 1% |
| **Anhysbys** | **321** | **90** | **69** | **9** | **68** | **557** | **74%** |
| **Cyfanswm** | **365** | **136** | **98** | **51** | **103** | **753** | **100%** |

**Siart 31: Canlyniadau dyfarnu terfynol PYCh a PI yn ôl cyfeiriadedd rhywiol**



## Apeliadau yn erbyn ein penderfyniadau

Gall nyrs neu fydwraig apelio yn erbyn y sancsiwn a osodwyd gennym. Mae'n rhaid gwneud yr apêl o fewn 28 diwrnod. Gwrandewir apeliadau yn yr Uchel Lys Cyfiawnder yng Nghymru a Lloegr, y Llys Sesiwn yn yr Alban neu'r Uchel Lys Cyfiawnder yng Ngogledd Iwerddon, yn dibynnu ar y wlad y mae cyfeiriad y nyrs neu'r fydwraig wedi'i gofrestru ynddi. Cafodd 20 o apeliadau o'r fath eu cyflwyno yn 2011-2012 ac mae saith o'r rhain yn dal i fynd rhagddynt.

Ni all cychwynnydd yr achos apelio yn erbyn ein penderfyniad ond gall geisio adolygiad barnwrol os nad yw'n fodlon ar y canlyniad.

Hefyd, os bydd y CHRE o'r farn nad oedd penderfyniad mewn achos yn ddigon llym gall ei atgyfeirio at y llysoedd. Cafodd un achos ei atgyfeirio at y CHRE yn 2011-2012.

**Tabl 32: Apeliadau yn erbyn ein penderfyniadau**

| Math o apêl | Nifer |
|---|---:|
| Adolygiad barnwrol gan gychwynnydd yr achos | 1 |
| Apêl CHRE | 1 |
| Apêl gan nyrs neu fydwraig gofrestredig | 11 |
| **Cyfanswm yr apeliadau a ddaeth i ben** | **13** |

| Proses apelio a ddilynwyd | Nifer |
|---|---:|
| Gwrandawiad llys | 8 |
| Cytundeb cydsyniol | 5 |
| **Cyfanswm yr apeliadau a ddaeth i ben** | **13** |

| Canlyniadau apeliadau | Nifer |
|---|---:|
| Dychwelyd at y pwyllgor ymarfer i'w hailystyried | 4 |
| Dyfarniad yn yr arfaeth | 3 |
| Sancsiwn cytûn newydd | 1 |
| Cadarnhau penderfyniad y CNB | 4 |
| Cytundeb arall | 1 |
| **Cyfanswm** | **13** |

## Adfer enw nyrs neu fydwraig i'r gofrestr

Rhaid i nyrsys a bydwragedd sydd wedi'u dileu aros am bum mlynedd cyn y gallant wneud cais i adfer eu henw i'r gofrestr.

Yn gyntaf, rhaid i nyrs neu fydwraig fodloni panel o'r Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd neu'r Pwyllgor Iechyd ei bod yn addas i ymarfer. Os yw'n gallu gwneud hynny, bydd angen iddi fel arfer ddilyn rhaglen dychwelyd i ymarfer cyn gallu ailymuno â'r gofrestr. Ystyriwn fod y profion llym hyn yn ffordd arall o sicrhau bod y cyhoedd yn cael ei ddiogelu'n briodol.

**Tabl 33: Canlyniadau ceisiadau adfer**

| Achosion adfer a ystyriwyd | Canlyniad |
|---|---|
| Ceisiadau a dderbyniwyd | 4 |
| Ceisiadau a wrthodwyd | 1 |
| **Cyfanswm** | **5** |

# Datblygiadau allweddol yn 2011-2012

Drwy gydol 2011-2012, rydym wedi bod yn datblygu rhaglen bwysig a ddechreuwyd gennym ym mis Ionawr 2011 i wella pob agwedd ar ein gwaith addasrwydd i ymarfer.

Rydym yn buddsoddi cryn adnoddau yn ein gwaith addasrwydd i ymarfer. Yn 2011-2012, roedd hyn yn cyfateb i £41.5m, sef tua 67 y cant o'n cyllideb. Ym mis Medi 2011, sefydlwyd Bwrdd Effeithlonrwydd i sicrhau ein bod yn nodi ac yn cyflawni arbedion o'r rhaglen wella. Erbyn hyn mae wedi dod yn rhan o Fwrdd Effeithlonrwydd corfforaethol ehangach i lywio gwelliannau ac effeithlonrwydd ym mhob agwedd ar ein gwaith.

Cam pwysig ymlaen oedd y newidiadau a wnaed gennym, gyda chytundeb yr Adran Iechyd, i'r rheolau sy'n pennu sut yr ymdriniwn ag achosion.[15] Yn sgil y diwygiadau i'r rheolau, cafodd rhai camau diangen yn ein prosesau a oedd yn peri oedi eu dileu, er enghraifft, lleihau sawl gwaith y mae'n rhaid i achos gael ei ystyried gan y Pwyllgor Ymchwilio. Daeth y newidiadau i rym ar 6 Chwefror 2012 a dylai ein galluogi i gynnal achosion yn fwy cyflym ac yn fwy effeithlon.

Rydym wedi ymgynghori ar newidiadau posibl eraill i'n rheolau, er enghraifft, galluogi unigolyn i gytuno i gael ei ddileu o'r gofrestr o dan amgylchiadau priodol neu a fyddai'n arwain at gytuno ar y camau nesaf mewn achos. Fel rhan o'r adolygiad hwn rydym yn ystyried pa amcanion a ddylai fod ynghlwm wrth ein proses rheoli achosion ynghyd â'r defnydd o adnoddau rheoli achosion eraill. Caiff pob cynnig ei wneud gyda'r nod o sicrhau bod ein prosesau'n effeithiol, yn deg ac er budd y cyhoedd. Os byddant yn mynd rhagddynt, disgwyliwn allu gwneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol, er enghraifft, drwy leihau nifer y diwrnodau gwrando diangen.

Nododd adolygiad perfformiad ac adroddiadau archwilio CHRE yn 2011 gryn wendidau yn ein gwaith addasrwydd i ymarfer.[16] Lluniwyd cynllun gweithredu gennym, y cytunwyd arno gyda'r Adran Iechyd a'r CHRE, er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau hyn, fel yr amlinellir isod. Caiff hynt y cynllun ei fonitro'n fisol gan Grŵp Cynllun Gweithredu Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor, yn ogystal â'i ystyried yng nghyfarfodydd llawn y Cyngor. Cydnabyddwn hefyd fod angen i ni wneud mwy i gyrraedd safonau'r CHRE o ran gwaith rheoleiddio da ym maes addasrwydd i ymarfer.[17]

Mae ein cynllun gweithredu yn canolbwyntio ar dri maes â blaenoriaeth.

## Cynnal achosion yn gyflymach

- Rydym wedi datblygu cynllun i ymdrin â'r holl achosion a ddaeth i law cyn i'n rhaglen wella ddechrau ym mis Ionawr 2011 - gelwir y rhain yn achosion hanesyddol. Ein nod yw clirio'r achosion hanesyddol hyn erbyn mis Ebrill 2013.

- Rydym wrthi'n cynyddu nifer y gwrandawiadau a gynhelir bob dydd, fel ein bod yn gallu cwblhau mwy o achosion yn gyflymach. Gwnaethom gaffael adeiladau swyddfa ychwanegol newydd ar gyfer ein staff addasrwydd i ymarfer ac addasu ein

15 www.nmc-uk.org/rules
16 www.chre.org.uk/_img/pics/library/110623_Final_-_CHRE_Performance_Review_report_2010-11_(Colour_for_web_-_PDF_version).pdf and www.chre.org.uk/_img/pics/library/111018_NMC_audit_report_for_publication.pdf
17 https://www.chre.org.uk/_img/pics/library/100601_The_Performance_Review_Standards_1.pdf

safle presennol er mwyn darparu mwy o le dynodedig ar gyfer gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer.

- Anelwn at gynyddu nifer y gwrandawiadau y gellir eu cynnal bob dydd yn sylweddol. Er mwyn cyflawni hyn a gwneud iawn am lefel uchel o ohiriadau, yn enwedig lle mae gohiriad ar ganol achos, rydym wedi cyflwyno nifer o fesurau, gan gynnwys hyfforddi panelwyr a phroses or-restru er mwyn helpu i wneud defnydd mwy effeithiol o'n capasiti gwrandawiadau.

- Rydym wedi newid ein prosesau mewnol ac atgyfnerthu'r canllawiau gweithredu a roddir i'n staff er mwyn helpu i wella'r ffordd rydym yn gweithio a dileu oedi wrth gynnal achosion.

- Rydym wedi dechrau mynd ati i gynnal ein hymchwiliadau ein hunain i achosion yn hytrach na'u hanfon at gyfreithwyr allanol. Dylai hyn ein helpu i reoli hynt achosion yn well yn ogystal â gwella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd. Gobeithiwn barhau i leihau nifer yr ymchwiliadau lle mae angen i ni ddefnyddio cyfreithwyr allanol dros amser.

- Gwnaethom ddechrau atgyfeirio achosion at gyflogwyr lle, ar ôl cynnal asesiad cychwynnol, penderfynir nad yw'r honiad, ar ei ben ei hun, yn ddigon difrifol i gymryd camau rheoliadol. Cysylltwn â chyflogwr y nyrs neu'r fydwraig a, lle mae'n cadarnhau nad oes ganddo unrhyw bryderon o ran addasrwydd i ymarfer, gall yr achos gael ei gau'n gyffredinol. Gallwn hefyd atgyfeirio achos at gyflogwr lle rydym o'r farn bod y mater a godwyd yn un lle byddai'n fwy priodol ei ddatrys yn lleol.

## Gwella gwasanaethau cwsmeriaid

- Ym mis Awst 2011, gwnaethom gyhoeddi safonau gofal cwsmeriaid newydd yn nodi'r hyn y gallai pawb sydd ynghlwm wrth achos ei ddisgwyl gennym. Ar ddiwedd pob achos, rydym bellach yn anfon ffurflen adborth cwsmeriaid at bawb a gymerodd ran ac, er mai nifer fach o ymatebion a gafwyd hyd yma, dadansoddwn y rhesymau dros unrhyw anfodlonrwydd er mwyn nodi ble mae angen i ni wneud gwelliannau pellach.

- Rydym wedi gwella ansawdd ein dulliau cyfathrebu drwy hyfforddiant staff a deunydd cyfeirio. Rydym yn sicrhau bod y llythyrau a anfonir gennym at bawb a fu'n gysylltiedig ag achos yn egluro'r rhesymau dros ein penderfyniadau cymaint â phosibl, yn ogystal â rhoi gwybodaeth am ein safonau gofal cwsmeriaid a manylion cyswllt staff.

- Pennwn darged o bum diwrnod ar gyfer anfon llythyrau sy'n rhoi gwybod am ganlyniadau achos a chyflawnwyd hyn mewn 88% o achosion ym mis Mawrth 2012.

- Gwnaethom weithredu system fwy cadarn ar gyfer ymdrin â chwynion am ein gwaith. Rydym wedi pennu targed i ymateb i bob cwyn o fewn 20 diwrnod i'w chael. Yn ystod 2011-2012, cawsom 152 o gwynion ac ymatebwyd i 136 ohonynt ymhen 20 diwrnod (89 y cant).

- Agorwyd swyddfa yng Nghaeredin, gyda lle dynodedig i wrando achosion yn ymwneud â nyrsys a bydwragedd wedi'u cofrestru yn yr Alban. Mae hyn wedi helpu i wella'r gofal cwsmeriaid y gallwn ei gynnig i dystion ac eraill sy'n dod i wrandawiad yn yr Alban.

### Gwella ansawdd a chysondeb y penderfyniadau a wnawn

- Yn gynharach eleni, ac yn dilyn proses recriwtio agored, penodwyd 98 o bobl yn gadeiryddion ar ein paneli addasrwydd i ymarfer, yn unol â meini prawf manwl gywir, gan gynnwys y gallu i reoli gwrandawiadau.

- Sefydlwyd grŵp mewnol sy'n adolygu'r holl benderfyniadau a wneir gan baneli, yn cynnwys penderfyniadau i ohirio achosion ar ôl iddynt ddechrau. Caiff yr hyn a ddysgir o'r adolygiadau hyn ei gyfleu i banelwyr a staff addasrwydd i ymarfer a rhoddir cymorth ac arweiniad pellach i aelodau paneli lle y bo angen gan ein Tîm Cymorth Paneli.

- Rydym wedi datblygu canllawiau i helpu paneli i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r prif faterion wrth ddod i gasgliadau, ynghyd â chanllawiau ar sut i sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu hegluro'n fanylach. Rydym hefyd wrthi'n diwygio ein canllawiau i baneli ar y materion i'w hystyried wrth benderfynu ar y lefel briodol o sancsiynau i'w gosod.

- Rydym wedi atgyfnerthu'r cymorth a'r cyngor a roddir i baneli gan ein staff ac wedi recriwtio tua 132 o staff newydd ar eu cyfer ynghyd ag amrywiaeth o rolau eraill ym maes addasrwydd i ymarfer.

- Mae ein tîm sicrhau ansawdd yn cynnal rhaglen strwythuredig o archwiliadau sy'n fodd pellach i nodi meysydd i'w gwella yn ein gwaith.

## Casgliad

Mae sicrhau bod y cyhoedd yn cael ei ddiogelu rhag nyrsys a bydwragedd nad ydynt yn addas i ymarfer wrth wraidd ein dyletswydd statudol i ddiogelu iechyd a lles y cyhoedd.

Mae'r nifer fawr o achosion a chymhlethdod cynyddol yr achosion y mae'n rhaid i ni eu rheoli yn ffactorau allweddol sy'n effeithio ar ein perfformiad. Mae llwyth achosion unigol trwm iawn ein staff wedi effeithio ar ein gallu i ymdrin ag achosion yn gyflymach ac ansawdd ein gwaith ac rydym wedi bod yn cymryd camau i geisio datrys hyn. Fodd bynnag, cydnabyddwn y gallwn weld ein llwyth gwaith yn cynyddu ymhellach yn dilyn yr adroddiad ar yr Ymchwiliad Cyhoeddus i Ymddiriedolaeth Sylfaen GIG Canol Swydd Stafford (Ymchwiliad Francis) a ddisgwylir ar ddiwedd 2012.[18] Rydym yn cymryd camau i fodelu ein llif gwaith er mwyn ein helpu i nodi gwelliannau pellach a chynnwys y tybiaethau hyn yn ein prosesau cynllunio a chyllidebu.

Dylai'r camau rydym yn eu cymryd yn y tri maes â blaenoriaeth a nodir uchod, ynghyd â buddsoddiad sylweddol parhaus, ein helpu i gyflawni'r gwelliannau sylweddol mewn perfformiad rydym yn benderfynol o'u gweld yn ein gwaith addasrwydd i ymarfer.

18 www.midstaffspublicinquiry.com/

# Atodiad 1

**Tabl 34 - Manylion y mathau o honiadau a geir mewn atgyfeiriadau newydd**

Rhydd y tabl hwn ddadansoddiad manylach o'r honiadau a grynhoir yn Nhabl 10. Dengys, i raddau manylach nag o'r blaen, natur yr honiadau a gafwyd ynghylch nyrsys a bydwragedd. Mae a wnelo llawer o achosion â mwy nag un math o honiad ynghylch nyrs neu fydwraig benodol felly dyna'r rheswm bod cyfanswm nifer yr honiadau, sef 8,300, yn llawer uwch na nifer yr atgyfeiriadau newydd (4,407).

| Math o honiad - atgyfeiriadau newydd | Cyfanswm |
|---|---|
| Camymddwyn - esgeuluso cleifion | 618 |
| Camymddwyn - arall (nad yw'n glinigol) | 572 |
| Camymddwyn - rhagnodi/gweinyddu cyffuriau | 454 |
| Camymddwyn - cadw cofnodion | 382 |
| Camymddwyn - materion eraill o ran triniaeth glinigol | 346 |
| Camymddwyn – anonestrwydd (nad yw'n glinigol) | 292 |
| Camymddwyn - materion cyflogaeth | 193 |
| Camymddwyn – anonestrwydd (clinigol) | 189 |
| Camymddwyn - trais/ymddygiad tuag at gydweithwyr | 174 |
| Camymddwyn - trais/cam-drin corfforol mewn perthynas â chleifion | 152 |
| Camymddwyn - materion rheoli/dirprwyo | 150 |
| Camymddwyn - methu â chynnal ffiniau proffesiynol (arall) | 140 |
| Camymddwyn – cam-drin cleifion yn eiriol | 124 |
| Camymddwyn - methu â chynnal ffiniau proffesiynol (rhywiol) | 107 |
| Camymddwyn - dwyn cyffuriau | 105 |
| Camymddwyn - torri cyfrinachedd | 97 |
| Camymddwyn - cysgu ar ddyletswydd | 55 |
| Camymddwyn - hiliaeth/gwahaniaethu | 50 |
| Camymddwyn - rhwydweithio cymdeithasol | 44 |
| Camymddwyn - pornograffi | 6 |
| **Cyfanswm y camymddwyn** | **4,250** |

| Math o honiad - atgyfeiriadau newydd (parhad) | Cyfanswm |
|---|---|
| Diffyg cymhwysedd - gofal cleifion | 827 |
| Diffyg cymhwysedd - diffyg gwybodaeth, medrusrwydd a barn | 442 |
| Diffyg cymhwysedd - gweinyddu cyffuriau | 366 |
| Diffyg cymhwysedd - cadw cofnodion | 351 |
| Diffyg cymhwysedd - materion cyfathrebu | 189 |
| Diffyg cymhwysedd - materion clinigol eraill | 172 |
| Diffyg cymhwysedd - arall | 65 |
| **Cyfanswm y diffyg cymhwysedd** | **2,412** |
| Troseddol - camddefnyddio alcohol/cyffuriau | 344 |
| Troseddol - cerbyd modur arall | 283 |
| Troseddol - trais arall | 253 |
| Troseddol - arall | 155 |
| Troseddol - dwyn/anonestrwydd arall | 143 |
| Troseddol - twyll/ffugio | 138 |
| Troseddol - troseddau rhywiol | 57 |
| Troseddol - pornograffi plant | 6 |
| Troseddol - llofruddiaeth/dynladdiad | 3 |
| Troseddol - hiliaeth | 2 |
| Troseddol - amddiffyn plant | 1 |
| **Cyfanswm troseddol** | **1,385** |
| Iechyd - meddwl | 118 |
| Iechyd - corfforol | 27 |
| **Cyfanswm iechyd** | **145** |
| Ymchwiliad parhaus gan yr heddlu - dim cyhuddiad eto | 27 |
| Ymchwiliad yr heddlu yn mynd rhagddo | 24 |
| **Cyfanswm yr heddlu** | **51** |
| **Cofnod twyllodrus ar y gofrestr** | **47** |
| **Penderfyniad gan gorff arall** | **10** |
| **Cyfanswm i gyd** | **8,300** |

**Tabl 35 – Mathau o honiadau a ystyriwyd ar y cam dyfarnu terfynol gan y Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd**

Rhydd y tabl hwn wybodaeth fanylach am y mathau o honiadau a ystyriwyd ar y cam dyfarnu terfynol gan y Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd.

| Mathau o honiadau ar y cam dyfarnu terfynol a ystyriwyd gan y pwyllgor ymddygiad a chymhwysedd | Canran yr achosion |
|---|---|
| Troseddol - camddefnyddio alcohol/cyffuriau | 2% |
| Troseddol - dwyn/anonestrwydd arall | 2% |
| Troseddol - trais arall | 1% |
| Troseddol - arall | 1% |
| Troseddol - twyll/ffugio | 1% |
| Troseddol - cerbyd modur arall | 1% |
| Troseddol - troseddau rhywiol | Llai nag 1% |
| Troseddol - amddiffyn plant | Llai nag 1% |
| Troseddol - pornograffi plant | Llai nag 1% |
| Troseddol - llofruddiaeth/dynladdiad | Llai nag 1% |
| **Cyfanswm troseddol** | **11%** |
| Diffyg cymhwysedd - gofal cleifion | 5% |
| Diffyg cymhwysedd - gweinyddu cyffuriau | 3.5% |
| Diffyg cymhwysedd - diffyg gwybodaeth, medrusrwydd a barn | 3% |
| Diffyg cymhwysedd - cadw cofnodion | 3% |
| Diffyg cymhwysedd - arall | 2.5% |
| Diffyg cymhwysedd - materion cyfathrebu | 2% |
| Diffyg cymhwysedd - materion clinigol eraill | 2% |
| **Cyfanswm y diffyg cymhwysedd** | **21%** |

| **Mathau o honiadau ar y cam dyfarnu terfynol a ystyriwyd gan y pwyllgor ymddygiad a chymhwysedd (parhad)** | **Canran yr achosion** |
|---|---|
| Camymddwyn - rhagnodi/gweinyddu cyffuriau | 9% |
| Camymddwyn - cadw cofnodion | 8.5% |
| Camymddwyn - materion eraill o ran triniaeth glinigol | 8% |
| Camymddwyn - esgeuluso cleifion | 6% |
| Camymddwyn - arall (nad yw'n glinigol) | 5% |
| Camymddwyn - anhysbys | 5% |
| Camymddwyn – anonestrwydd (nad yw'n glinigol) | 4.5% |
| Camymddwyn – anonestrwydd (clinigol) | 4% |
| Camymddwyn - trais/cam-drin corfforol mewn perthynas â chleifion | 3% |
| Camymddwyn – cam-drin cleifion yn eiriol | 2.5% |
| Camymddwyn - trais/ymddygiad tuag at gydweithwyr | 2% |
| Camymddwyn - materion rheoli/dirprwyo | 2% |
| Camymddwyn - methu â chynnal ffiniau proffesiynol (rhywiol) | 2% |
| Camymddwyn - materion cyflogaeth | 1.5% |
| Camymddwyn - dwyn cyffuriau | 1% |
| Camymddwyn - cysgu ar ddyletswydd | 1% |
| Camymddwyn - methu â chynnal ffiniau proffesiynol (arall) | 1% |
| Camymddwyn - torri cyfrinachedd | 1% |
| Camymddwyn - cam-drin person oedrannus | Llai nag 1% |
| Camymddwyn - hiliaeth/gwahaniaethu | Llai nag 1% |
| Camymddwyn - pornograffi | Llai nag 1% |
| Camymddwyn - rhwydweithio cymdeithasol | Llai nag 1% |
| **Cyfanswm y camymddwyn** | **68%** |